# Trwyddedu Gwasanaethau Teledu Lleol

Gwybodaeth am y broses adnewyddu trwyddedau Teledu Lleol

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 19 Tachwedd 2024

# Cynnwys

## Adran

Heb ganfod tabl cynnwys.

## Atodiad

Heb ganfod tabl cynnwys.

# 1. Trosolwg

1.1 Bydd y trwyddedau presennol ar gyfer yr amlblecs lleol (‘Amlblecs L’) a phob un o’r 34 gwasanaeth teledu lleol (‘L-DTPS’) yn dod i ben ar 25 Tachwedd 2025. Ar 5 Tachwedd 2024, cyflwynwyd Gorchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Digidol Lleol (Diwygio) 2024 (‘Gorchymyn 2024’) gerbron y Senedd. Os caiff ei gymeradwyo, bydd Gorchymyn 2024 yn rhoi’r pŵer i Ofcom ymestyn y trwyddedau Amlblecs L ac L-DTPS presennol 12 mis tan 25 Tachwedd 2026, gyda chydsyniad y trwyddedeion. Pan fyddwn wedi ymestyn trwydded, gall trwyddedeion wedyn wneud cais i adnewyddu eu trwyddedau am wyth mlynedd arall (rhwng 26 Tachwedd 2026 a 31 Rhagfyr 2034).

1.2 Mae’r Datganiad hwn yn nodi proses Ofcom i adnewyddu trwyddedau a’r amserlen y byddwn yn ei dilyn. Rydym yn gwneud hynny nawr er mwyn i ni allu rhoi ein cynlluniau ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl i Orchymyn 2024 ddod i rym, ac i helpu’r trwyddedeion Amlblecs L ac L-DTPS presennol i baratoi eu ceisiadau i adnewyddu eu trwyddedau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

# 2. Adnewyddu trwyddedau Amlblecs L ac L-DTPS

## Cyflwyniad

2.1 Yn 2012, cafodd trefn drwyddedu newydd ei chreu ar gyfer teledu lleol a dyfarnodd Ofcom drwyddedau ar gyfer amlblecs lleol newydd, Amlblecs L, a 34 L-DTPS ledled y DU. Bydd y trwyddedau hyn, sy'n gydffiniol, yn dod i ben y flwyddyn nesaf ac felly mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth i'w galluogi i gael:

a) eu hymestyn gan Ofcom am 12 mis, i ddod i ben ar 25 Tachwedd 2026, gyda chaniatâd deiliad y drwydded; a
b) lle mae trwydded wedi cael ei hymestyn, ei hadnewyddu am gyfnod o wyth mlynedd o 26 Tachwedd 2026 hyd at 31 Rhagfyr 2034.

2.2 Cafodd y ddeddfwriaeth – Gorchymyn 2024 – ei chyflwyno gerbron y Senedd ar 5 Tachwedd 2024 a bydd yn dod i rym ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd.

2.3 Yn yr adran hon, rydym yn egluro'r broses a nodir yng Ngorchymyn 2024 ar gyfer ymestyn ac yna adnewyddu'r trwyddedau Amlblecs L ac L-DTPS presennol a'r profion y mae'n rhaid i Ofcom eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid dyfarnu cais adnewyddu. Rydym yn rhoi canllawiau i drwyddedeion Amlblecs L ac L-DTPS ynghylch sut mae gwneud cais i adnewyddu yn Atodiadau 1 a 2.

2.4 Nid ydym wedi cynnal asesiad effaith nac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb oherwydd bod Gorchymyn 2024 i bob pwrpas yn mynnu ein bod yn ymestyn y trwyddedau Amlblecs L ac L-DTPS presennol, yn amodol ar ganiatâd y trwyddedeion, cyn y gall trwyddedeion fod yn gymwys i'w hadnewyddu, a byddwn yn ystyried ceisiadau adnewyddu unigol y mae'n rhaid i ni benderfynu arnynt yn unol â'r meini prawf statudol penodol a nodir yng Ngorchymyn 2024. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eisoes wedi cynnal Asesiad De Minimis, sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ar gyfer Gorchymyn 2024.[1]

## Estyniadau i drwyddedau

2.5 Mae Gorchymyn 2024 yn cynnwys pŵer i Ofcom ymestyn trwyddedau Amlblecs L ac L-DTPS tan 25 Tachwedd 2026. Mae hyn ar waith er mwyn i Ofcom gael digon o amser i ystyried ceisiadau adnewyddu ac, os yw'n briodol, ail-hysbysebu a dyfarnu trwydded newydd pan na fydd unrhyw drwydded bresennol yn cael ei hadnewyddu (boed hynny oherwydd nad yw'r trwyddedai presennol yn gwneud cais i adnewyddu neu oherwydd bod cais i adnewyddu wedi cael ei wrthod) cyn y byddai'n dod i ben fel arall.

2.6 Pan ddaw Gorchymyn 2024 i rym, rydym yn disgwyl ysgrifennu at bob trwyddedai i ddweud wrthynt fod y cyfnod ar gyfer ceisiadau adnewyddu ar agor. Ar yr un pryd, rydym yn disgwyl rhoi'r opsiwn iddynt ymestyn eu trwyddedau tan 25 Tachwedd 2026. Os bydd trwyddedai'n

[1] Gweler Gorchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Digidol Lleol (Diwygio) 2024 (legislation.gov.uk)

gwrthod yr opsiwn i ymestyn ei drwydded, o dan Orchymyn 2024, ni fydd yn gymwys i wneud cais i adnewyddu a bydd ei drwydded yn dod i ben ar 25 Tachwedd 2025.

## Gwneud cais i adnewyddu

2.7 Os yw trwyddedai Amlblecs L neu L-DTPS yn dymuno adnewyddu ei drwydded, dylai gyflwyno cais ysgrifenedig i Ofcom, gan ystyried y canllawiau yn Atodiad 1 ac Atodiad 2, yn y drefn honno, ynghylch sut dylai trwyddedeion Amlblecs L ac L-DTPS wneud cais. Byddwn yn ystyried ceisiadau'n unol â'r prawf statudol perthnasol yng Ngorchymyn 2024, a drafodir yn fanylach ym mharagraffau 3.1 a 3.15 isod, a'n dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.[2]

2.8 Bydd y cyfnod ymgeisio'n agor yn ffurfiol pan ddaw Gorchymyn 2024 i rym, ac rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd ym mis Rhagfyr 2024 neu ddechrau mis Ionawr 2025, a bydd yn dod i ben ar **31 Mawrth 2025.**[3] Rydym yn annog trwyddedeion i wneud cais cyn gynted â phosibl. Bwriad yr wybodaeth yn y datganiad hwn yw helpu trwyddedeion i baratoi eu cais cyn i Orchymyn 2024 ddod i rym. Dylai'r trwyddedeion nodi na fyddwn yn gallu penderfynu ar unrhyw gais nes y gwneir Gorchymyn 2024, ac mae'r trwyddedai wedi cydsynio i ymestyn ei drwydded bresennol am 12 mis.

2.9 Nid ydym yn disgwyl cyhoeddi ceisiadau adnewyddu, oni bai fod rheswm penodol dros ofyn am sylwadau gan drydydd parti. Er enghraifft, pe bai trwyddedai Amlblecs L yn cyflwyno cynlluniau technegol neu hyrwyddo atodol (gweler paragraffau 3.9-3.14 isod), byddem yn cyhoeddi ei gynigion a gwahodd sylwadau, o ystyried effeithiau posibl y newidiadau hyn ar y sector cyfan. Os bydd cais i adnewyddu gan drwyddedai L-DTPS yn cynnig newid i'w Ymrwymiadau Rhaglennu presennol ac nad oes digon o amser ar gael i ni ystyried cais o'r fath cyn adnewyddu, gallwn ddelio ag unrhyw gynnig o'r fath ar wahân fel cais am newid Ymrwymiad Rhaglennu, yn dilyn adnewyddu'r drwydded ar yr amodau presennol. Efallai y bydd y broses ar wahân hon yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi manylion y newid arfaethedig ac yn gwahodd sylwadau er mwyn dod i benderfyniad ynghylch a ddylid amrywio'r Ymrwymiadau Rhaglennu.

2.10 Mae'r amserlen i'r trwyddedeion wneud cais i adnewyddu, ac i Ofcom adnewyddu trwydded Amlblecs L ac L-DTPS bresennol, wedi'i nodi yng Ngorchymyn 2024.[4] Fel y nodwyd uchod, y dyddiad cau statudol i wneud cais i adnewyddu yw 31 Mawrth 2025, a dim ond adnewyddu'r trwyddedau presennol cawn wneud cyn 26 Tachwedd 2025. Oherwydd nad oes llawer o amser ar gael, ni fyddwn yn gallu derbyn ceisiadau hwyr ar ôl i'r cyfnod ymgeisio ddod i ben.

---

[2] Prif ddyletswydd Ofcom o dan adran 3(1) o Ddeddf 2003 o ran cyflawni ei swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae'n rhaid i ni roi sylw i'r materion a restrir yn adran 3(2) o Ddeddf 2003, sy'n cynnwys sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y DU sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac sydd wedi cael eu cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau. Mae hefyd yn ofynnol i ni roi sylw i'r materion a restrir yn adran 3(4) i'r graddau y maent yn ymddangos yn berthnasol, sy'n cynnwys gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

[3] Adrannau 16A(2)(c) ac 19ZB(2)(c) o Ddeddf Darlledu 1996 (Deddf 1996), fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024 ar gyfer trwyddedau Amlblecs L ac L-DTPS yn y drefn honno.

[4] Adrannau 16A(1) a (2)(c) ac 19ZB(1) a (2)(c) o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024 ar gyfer trwyddedau Amlblecs L ac L-DTPS yn y drefn honno.

# 3. Sut byddwn yn asesu ceisiadau

## Sut byddwn ni'n penderfynu a fyddwn ni'n adnewyddu'r drwydded Amlblecs L

3.1 Pan fydd trwyddedai Amlblecs L yn gymwys i wneud cais i adnewyddu ar ôl cydsynio i ymestyn trwydded, bydd Ofcom ddim ond yn cael gwrthod cais i adnewyddu gan drwyddedai'r Amlblecs L os:

a) Mae'n ymddangos nad yw'r trwyddedai wedi cydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn ei drwydded; neu
b) Nid ydym yn fodlon y byddai'r trwyddedai, petai ei drwydded yn cael ei hadnewyddu, yn darparu gwasanaeth a oedd yn cydymffurfio â'r amodau i'w cynnwys yn y drwydded wedi'i hadnewyddu.[5]

3.2 Ar ben hynny, fel y nodir yn natganiad yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu ar yr amod bod y trwyddedai presennol yn cytuno i'r un cymal terfynu "rheoli sbectrwm" â'r prif drwyddedeion amlblecs teledu cenedlaethol – gweler paragraff A1.3 am ragor o fanylion.

3.3 Felly, byddwn yn asesu unrhyw gais adnewyddu yn erbyn y meini prawf a nodir yng Ngorchymyn 2024. Ar gyfer rhan gyntaf y prawf statudol, byddwn yn adolygu hanes cydymffurfio'r trwyddedai dros gyfnod presennol y drwydded, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unrhyw dor-amod a gofnodwyd neu ymchwiliad agored. Nid yw presenoldeb tor-amod blaenorol neu ymchwiliad agored yn golygu y byddwn yn gwrthod adnewyddu'r drwydded yn awtomatig – byddwn yn asesu hanes cydymffurfio'r trwyddedai yn ei gyfanrwydd, gan ystyried ffactorau fel difrifoldeb unrhyw dor-amod a gofnodwyd yn erbyn y trwyddedai, i ba raddau y mae'r trwyddedai wedi cydweithredu ag unrhyw ymchwiliadau blaenorol neu barhaus ac i ba raddau y mae'r trwyddedai wedi sicrhau cydymffurfiaeth ac wedi unioni'r canlyniadau yn dilyn unrhyw dor-amod.

3.4 Mewn perthynas â'r ail faen prawf, bydd Ofcom yn asesu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y trwyddedai yn ei gais, o ran ei gynlluniau ar gyfer cyfnod nesaf y drwydded ac i ba raddau y bydd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r drwydded drwy gydol cyfnod nesaf y drwydded. Byddwn hefyd yn edrych ar sefyllfa ariannol y trwyddedai, ar hyn o bryd ac unrhyw ragamcanion, i asesu a yw'n debygol o fod yn ddigon i gyflawni rhwymedigaethau ei drwydded dros gyfnod nesaf y drwydded. Mae ein canllawiau ar gyflwyno cais (Atodiad 1) yn nodi'r wybodaeth ariannol y dylai'r trwyddedai ei chyflwyno gyda'i gais. Os na fydd y trwyddedai'n gwneud hynny, mae'n debygol y byddwn yn gofyn yn ffurfiol am yr wybodaeth er mwyn ystyried y cais.

3.5 Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom gan y trwyddedai i asesu ei gais, gallwn ofyn am hyn gan y trwyddedai.[6] Fel y nodwyd, dim ond tan 25 Tachwedd 2025 sydd gennym i benderfynu a ddylid adnewyddu'r drwydded ac felly efallai mai dim ond amserlen fer y gallwn ei rhoi i'r trwyddedai i ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth.

[5] Gweler adran 16A(4) o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024.
[6] Adran 16A(3)(b) o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024.

3.6 Os nad oes sail dros wrthod y cais o dan y prawf statudol, bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu ar sail yr amodau presennol, ac eithrio yn yr amgylchiadau a drafodir ym mharagraffau 3.9-3.14 isod.

3.7 Os caiff ei dyfarnu, rydym yn disgwyl y bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu o 26 Tachwedd 2026 tan 31 Rhagfyr 2034.

3.8 Os ydym yn bwriadu gwrthod cais, byddwn yn rhoi ein penderfyniad dros dro i'r trwyddedai ac yn rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau cyn i ni wneud penderfyniad terfynol. Gallai'r amserlenni byr sydd gennym i wneud penderfyniad olygu mai dim ond cyfnod byr fydd gan y trwyddedai i ddarparu unrhyw sylwadau o'r fath.

## Cynlluniau technegol atodol a chynigion hyrwyddo atodol a gyflwynir gyda chais adnewyddu Amlblecs L

3.9 Wrth wneud cais i adnewyddu Trwydded Amlblecs L, caiff y trwyddedai, os yw'n dymuno, gyflwyno:

a) cynllun technegol mewn perthynas â darpariaeth y gwasanaeth amlblecs teledu daearol digidol ('DTT') a'r amserlen a'r dulliau technegol ar gyfer cyflawni hynny, ac sy'n ategu ei gynllun technegol presennol; a
b) cynigion ar gyfer cefnogi gwasanaethau rhaglenni teledu digidol lleol, sy'n ategu'r amodau presennol sydd wedi'u hatodi i'w trwydded bresennol.[7]

3.10 Byddai unrhyw gynllun neu gynigion atodol o'r fath, os cânt eu derbyn, yn disodli'r cynlluniau technegol a hyrwyddo presennol sy'n rhan o'r drwydded bresennol. Felly, bydd yn rhaid i'r trwyddedai egluro fel rhan o'i gais am drwydded sut bydd yn cyflawni'r cynllun a/neu'r cynigion yn ystod cyfnod nesaf y drwydded. Yn ogystal, dylai unrhyw gynllun neu gynigion o'r fath *ategu*'r gofynion technegol a hyrwyddo presennol. Mae hyn yn golygu y bydd angen i Ofcom asesu a yw unrhyw gynlluniau neu gynigion o'r fath, ar y cyfan, yn adeiladu ar y gofynion presennol ac nad ydynt yn eu gwanhau na'u dileu heb wrthbwyso manteision sydd, ar y cyfan, yn sicrhau canlyniad cyfartal neu well o'i gymharu â'r gofynion presennol.

3.11 Byddwn yn ymdrechu i asesu unrhyw gynigion neu gynllun technegol atodol y gall y trwyddedai eu cyflwyno pan fyddwn yn penderfynu adnewyddu'r drwydded ai peidio. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosibl, gallwn ohirio ystyried unrhyw gynlluniau neu gynigion tan ar ôl i'r drwydded gael ei hadnewyddu.[8] Os digwydd hynny, bydd unrhyw gynllun neu gynigion atodol sy'n cael ei gyflwyno yn cael ei drin fel cais gan y trwyddedai i amrywio amodau ei drwydded o dan Amod 25 trwydded Amlblecs L. Oherwydd y posibilrwydd na fyddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses adnewyddu trwydded neu efallai na fyddwn yn eu derbyn, os bydd y trwyddedai'n cyflwyno cynlluniau neu gynigion atodol, rhaid iddo hefyd gynnwys yn ei gais esboniad o sut bydd yn cydymffurfio â'r gofynion presennol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded.

3.12 Pan fyddwn yn ystyried ac yn derbyn y cynlluniau neu'r cynigion atodol fel rhan o'r cais adnewyddu, byddwn yn llunio amodau trwydded newydd i sicrhau bod y cynlluniau a/neu'r

[7] Gweler adran 16B o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024.
[8] Gweler adran 16B(3) o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024.

cynigion hyn yn cael eu bodloni ac yn rhoi cyfle i'r trwyddedai gyflwyno sylwadau cyn penderfynu pa amodau i'w cynnwys yn y drwydded wedi'i hadnewyddu.[9]

3.13 Os nad ydym yn bwriadu derbyn y cynlluniau neu'r cynigion atodol ar ôl eu hystyried fel rhan o'r broses adnewyddu, byddwn yn rhoi gwybod i'r trwyddedai ac yn rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau cyn i ni wneud penderfyniad terfynol. Bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu ar y telerau presennol os byddwn yn dod i'r casgliad nad yw'r cynlluniau neu'r cynigion yn ategu'r gofynion presennol neu os nad ydym yn fodlon na fydd y trwyddedai'n eu cyflawni yn ystod cyfnod nesaf y drwydded.

3.14 Os byddwn yn gohirio ystyried y cynlluniau neu'r cynigion atodol tan ar ôl i ni benderfynu ar y cais adnewyddu, byddem yn nodi ein bwriad i adnewyddu'r drwydded ar y telerau presennol ac yn penderfynu a ddylid amrywio amodau'r drwydded o dan Amod 25 cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ar ôl 25 Tachwedd 2025. Os ydym yn bwriadu amrywio amodau'r drwydded i ymgorffori'r cynlluniau neu'r cynigion atodol yn y drwydded, nid oes angen i ni gael caniatâd y trwyddedai i'r amrywiad.[10] Fodd bynnag, bydd y trwyddedai'n cael cyfle i roi sylwadau ar unrhyw amrywiad arfaethedig cyn i ni wneud penderfyniad terfynol.

## Sut byddwn ni'n penderfynu a fyddwn ni'n adnewyddu trwydded L-DTPS

3.15 Pan fydd trwyddedai yn gymwys i wneud cais i adnewyddu ar ôl cydsynio i ymestyn trwydded, bydd Ofcom ddim ond yn cael gwrthod cais i adnewyddu trwydded L-DTPS os:

a) Mae'n ymddangos nad yw'r trwyddedai wedi cydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau yn ei drwydded; neu
b) Nid ydym yn fodlon y byddai'r trwyddedai, petai ei drwydded yn cael ei hadnewyddu, yn darparu gwasanaeth a oedd yn cydymffurfio â'r amodau i'w cynnwys yn y drwydded wedi'i hadnewyddu.[11]

3.16 Byddwn felly'n asesu unrhyw gais adnewyddu yn erbyn y meini prawf hyn. Er enghraifft, ar gyfer rhan gyntaf y prawf statudol, byddwn yn adolygu hanes cydymffurfio'r trwyddedai dros gyfnod presennol y drwydded, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unrhyw dor-amod a gofnodwyd neu ymchwiliad agored. Nid yw presenoldeb tor-amod blaenorol neu ymchwiliad agored yn golygu y byddwn yn gwrthod adnewyddu'r drwydded yn awtomatig – byddwn yn asesu hanes cydymffurfio'r trwyddedai yn ei gyfanrwydd, gan ystyried ffactorau fel difrifoldeb unrhyw dor-amod a gofnodwyd yn erbyn y trwyddedai, i ba raddau y mae'r trwyddedai wedi cydweithredu ag unrhyw ymchwiliadau blaenorol neu barhaus ac i ba raddau y mae'r trwyddedai wedi sicrhau cydymffurfiaeth ac wedi unioni'r canlyniadau yn dilyn unrhyw dor-amod.

3.17 Mae'r ail faen prawf yn ei gwneud yn ofynnol i ni benderfynu a fydd y trwyddedai'n darparu gwasanaeth yn unol â thelerau ei drwydded dros gyfnod nesaf y drwydded. Mae'n rhaid i'r trwyddedai ddarparu yn ei gais fanylion ei wasanaeth arfaethedig ac esboniad manwl o sut bydd hyn a chymeriad y gwasanaeth yn cael eu cynnal dros y cyfnod nesaf.[12] Dylai'r wybodaeth y mae'r trwyddedai'n ei darparu yn ei gais gynnwys yr wybodaeth ariannol a nodir yn y canllawiau yn Atodiad 2, sy'n berthnasol i'w sefyllfa ariannol bresennol ac

[9] Gweler Adran 16B(2) o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024.
[10] Gweler adran 12(2) o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024.
[11] Gweler adran 19ZB(5) o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024.
[12] Gweler adran 19ZB(3)(a),(b) a (c) o Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024).

arfaethedig, er mwyn ein galluogi i ganfod a yw ei gynigion ar gyfer ei wasanaeth yn debygol o fod yn gynaliadwy dros gyfnod nesaf y drwydded.[13] Dylai trwyddedeion hefyd gyfeirio at ein datganiadau yn 2012 a 2024 wrth ystyried pa wybodaeth i'w darparu yn eu ceisiadau am eu gwasanaeth arfaethedig a sut maent yn bwriadu cyflawni eu Hymrwymiadau Rhaglennu.

3.18 Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom gan y trwyddedai i asesu ei gais, gallwn ofyn am hyn gan y trwyddedai.[14] Fel y nodwyd, dim ond tan 25 Tachwedd 2025 sydd gennym i benderfynu a ddylid adnewyddu'r drwydded ac felly efallai mai dim ond amserlen fer y gallwn ei rhoi i'r trwyddedai i ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth.

3.19 Os nad oes sail dros wrthod y cais o dan y prawf statudol, bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu ar sail yr amodau presennol.

3.20 Os caiff ei dyfarnu, rydym yn disgwyl adnewyddu'r drwydded hyd at 31 Rhagfyr 2034, gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl i'r drwydded bresennol ddod i ben, fel y cafodd ei hymestyn (h.y. o 26 Tachwedd 2026 ymlaen).

3.21 Os ydym yn bwriadu gwrthod cais, byddwn yn rhoi ein penderfyniad dros dro i'r trwyddedai ac yn rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau cyn i ni wneud penderfyniad terfynol. Gallai'r amserlenni byr sydd gennym i wneud penderfyniad olygu mai dim ond cyfnod byr fydd gan y trwyddedai i ddarparu unrhyw sylwadau o'r fath.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i ni wneud ein penderfyniadau ynghylch ceisiadau adnewyddu?

3.22 Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau adnewyddu ar ein gwefan, ynghyd â'r trwyddedau a adnewyddwyd.

3.23 Os na fydd trwydded yn cael ei hadnewyddu a'n bod yn ceisio dyfarnu trwydded newydd drwy rownd aildrwyddedu gystadleuol, byddwn yn cyhoeddi manylion y broses aildrwyddedu cyn ailhysbysebu trwydded.

[13] Gweler adran 19ZB(3)(d) o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024.
[14] Gweler adran 19ZB(4) o Ddeddf 1996, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2024.

# A1. Amlblecs L: Canllawiau ar gyfer trwyddedai Amlblecs L ar sut mae gwneud cais

## Ffurflen Gais

A1.1 Rhaid gwneud cais i adnewyddu yn ysgrifenedig a rhaid cynnwys:

a) Llythyr wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan gynrychiolydd awdurdodedig y cwmni sy'n dal trwydded, sy'n nodi bod y trwyddedai'n dymuno gwneud cais i adnewyddu am y cyfnod perthnasol a nodir yng Ngorchymyn 2024. Dylai'r llythyr hwn hefyd gynnwys cadarnhad wedi'i lofnodi bod y trwyddedai'n derbyn y cymal terfynu rheoli sbectrwm fel y'i nodir ym mharagraff A1.3;
b) Datganiad gwreiddiol wedi'i lofnodi (mae copi o'r datganiad wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn);
c) Gwybodaeth ariannol sy'n berthnasol i gynaliadwyedd ariannol arfaethedig y trwyddedai dros gyfnod nesaf y drwydded, gan gynnwys:
   i) cyfrifon llawn ar gyfer y tair blwyddyn ariannol flaenorol;
   ii) cynllun/model busnes ar gyfer cyfnod newydd y drwydded yn nodi unrhyw dybiaethau allweddol;
   iii) dadansoddiad o'r ffynonellau cyllid ar gyfer cyfnod newydd y drwydded ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig rhag ofn y bydd risg o golledion; ac
   iv) unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn y trwyddedai;
d) Gwybodaeth am y gwasanaeth y mae'r trwyddedai'n bwriadu ei ddarparu os adnewyddir y drwydded, a sut bydd hyn yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut bydd y trwyddedai yn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion ei gynlluniau hyrwyddo a thechnegol, ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r ymgeisydd yn ei hystyried yn briodol i egluro sut byddai'n sicrhau bod gwasanaethau L-DTPS yn cael eu darlledu dros gyfnod nesaf y drwydded; ac
e) Unrhyw gynlluniau technegol atodol a/neu gynigion atodol.

A1.2 Nid yw cais i adnewyddu yn gyfrwymol a gall y trwyddedai dynnu ei gais yn ôl unrhyw bryd hyd nes bydd Ofcom yn penderfynu a ddylid adnewyddu'r drwydded ai peidio.

## Cymal Terfynu Rheoli Sbectrwm

A1.3 Fel y nodir ym mharagraff 3.2, caiff y drwydded amlblecs ei hadnewyddu ar yr amod bod y trwyddedai'n cytuno i'r cymal terfynu "rheoli sbectrwm" â'r prif amlblecsau cenedlaethol eraill. Bydd hyn yn rhoi'r pŵer i Ofcom ddiddymu'r drwydded amlblecs er mwyn ymateb i unrhyw ddigwyddiadau neu newidiadau yn y dyfodol yn y llwyfan DTT. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn ymateb y Llywodraeth i'w hymgynghoriad ar ei gwefan.

## Ffi Adnewyddu

A1.4 Mae ffi adnewyddu o £10,000 yn daladwy. Ni ellir ad-dalu'r ffi. [15] Dylid talu drwy drosglwyddiad BACS a rhaid cynnwys y taliad gyda'r cais adnewyddu.

## Cynigion a/neu gynlluniau technegol atodol

A1.5 Wrth wneud cais i adnewyddu, caiff y trwyddedai, os yw'n dymuno, gyflwyno:

a) Cynllun technegol atodol sy'n ategu ei gynllun presennol; a
b) Cynigion ar gyfer cefnogi gwasanaethau rhaglenni teledu lleol, sy'n ategu'r cynigion presennol fel y'u nodir yn y drwydded bresennol.

A1.6 Dylai'r trwyddedai gynnwys esboniad ynghylch pam mae cynlluniau neu gynigion o'r fath yn ategu rhwymedigaethau'r drwydded bresennol. Dylai'r trwyddedai hefyd sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei darparu gyda'i gais yn cynnwys gwybodaeth am sut bydd yn cyflawni rhwymedigaethau ei drwydded bresennol mewn perthynas â'r materion hyn yn ystod cyfnod nesaf y drwydded yn ogystal â sut bydd yn gwneud hynny o dan y cynigion a/neu gynllun atodol.

[15] Mae ffioedd trwydded ar gyfer yr amlblecs lleol wedi'u nodi yn Nhablau Tariffau Ofcom 2024/25 (tudalen 10).

# A2. Trwyddedau L-DTPS: Canllawiau ar gyfer trwyddedeion L-DTPS ar sut mae gwneud cais

## Ffurflen Gais

A2.1 Rhaid i'r trwyddedai gyflwyno ei gais yn ysgrifenedig a rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

a) Llythyr, wedi'i lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig y cwmni dal trwyddedau, sy'n nodi bod y trwyddedai'n dymuno gwneud cais i adnewyddu am y cyfnod perthnasol fel y nodir yng Ngorchymyn 2024;
b) Datganiad Gwreiddiol wedi'i lofnodi (mae copi o'r datganiad wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn);
c) Manylion y gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol y mae'r ymgeisydd yn bwriadu ei ddarparu,
d) Esboniad manwl o allu'r ymgeisydd i gynnal y gwasanaeth arfaethedig, drwy gydol y cyfnod y byddai'r drwydded, pe bai'n cael ei hadnewyddu, mewn grym;
e) Esboniad manwl o sut bwriedir cynnal cymeriad y gwasanaeth am y cyfnod y byddai'r drwydded, pe bai'n cael ei hadnewyddu, mewn grym; a
f) Gwybodaeth ariannol sy'n berthnasol i gynaliadwyedd ariannol y trwyddedai a'i allu i ddarparu ei wasanaeth arfaethedig dros gyfnod nesaf y drwydded, gan gynnwys:
   i) cyfrifon llawn ar gyfer y tair blwyddyn ariannol flaenorol;
   ii) cynllun/model busnes ar gyfer cyfnod y drwydded yn nodi unrhyw dybiaethau allweddol;
   iii) dadansoddiad o'r ffynonellau cyllid ar gyfer cyfnod y drwydded ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig rhag ofn y bydd risg o golledion;
   iv) ac unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn y trwyddedai.
g) Gwybodaeth am y gwasanaeth y mae'r ymgeisydd yn bwriadu ei ddarparu os adnewyddir y drwydded, a sut bydd hyn yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded. Dylai hyn gynnwys esboniad o sut mae'r trwyddedai'n bwriadu cyflawni ei Ymrwymiadau Rhaglennu dros gyfnod nesaf y drwydded.

A2.2 Pan fydd trwyddedai'n dal mwy nag un drwydded L-DTPS, rydym yn gofyn am geisiadau ar wahân ar gyfer pob trwydded unigol. Dylid dadgyfuno gwybodaeth ariannol yn ddigonol er mwyn ein galluogi i asesu cynaliadwyedd ariannol pob gwasanaeth trwyddedig.

A2.3 Rydym yn croesawu ceisiadau i adnewyddu yn Gymraeg gan drwyddedeion L-DTPS yng Nghymru.

## Ffi Adnewyddu

A2.4 Nid oes ffi ar gyfer ceisiadau i adnewyddu L-DTPS.